Cylchlythyr Mis Medi 2009

ADEILAD DEIAMWNT
6 HEIGAD
DINBYCH
SIR DDINBYCH
LL16 3LE

Prif Swyddog Newydd

Hoffai Cyfarwyddwyr, Staff, Aelodau a Chyfeillion y Fenter ddiolch i Dylan Luke Jones am ei holl waith yn ystod ei gyfnod fel Prif Swyddog. Mae Dylan bellach yn ei swydd newydd fel Swyddog Datblygu Uned Llywodraeth yng Nghymru ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Cychwynnodd Dylan ar ei waith gyda'r Fenter dair blynedd yn ôl fel Swyddog Datblygu, ac am y deunaw mis diwethaf bu'n Brif Swyddog. Hoffem hefyd groesawu Gwawr Cordiner i'r Fenter, a chychwynnodd fel Prif Swyddog rhan amser y Fenter ar Fedi'r 1af.

Gŵyl y Castell

Mae Cyngor Tref Dinbych ynghyd â nifer o bartneriaid, gan gynnwys Menter Iaith Sir Ddinbych, yn prysur drefnu gweithgareddau i'w cynnal yng Nghastell Dinbych ym Mis Medi. Bydd y noson gyntaf yn Noson y Digrifwyr a'r ail noson yn Gyngerdd Mawreddog. Yr artistiaid yn y cyngerdd fydd Côr Glanaethwy, Sioned Terry, Lucy Salt, Sian James, Brigyn a dwy ysgol leol - Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Heulfre. Cynhelir Noson y Digrifwyr ar Fedi 25ain a'r Cyngerdd ar Fedi 26ain. Felly rhowch y dyddiadau hyn yn eich dyddiadur a sicrhewch eich tocynnau!

Treftadaeth

Bydd y prosiect a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn dod i ben ddiwedd y mis hwn. Ers y cylchlythyr diwethaf cynhyrchwyd murlun gyda disgyblion Ysgol y Llys, Prestatyn. Thema'r murlun oedd sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia.

O ganlyniad bydd Gerallt, ein Swyddog Treftadaeth, yn newid rôl ac o Hydref 12fed yn gweithio fel Swyddog Datblygu i'r Fenter.

Newyddion Cyffredinol

Stomp

Cynhaliwyd Stomp Farddol ym Melin Brwcws, Dinbych, fel rhan o Ŵyl Ganol Haf Dinbych. Cafwyd cystadlu brwd. Yr enillydd y tro hwn oedd Arwel Emlyn o Ruthun. Hoffai'r Fenter ddiolch i Eurig Salisbury am fod yn Stomp Feistr ac i'r Academi am eu cymorth i gynnal y noson.

Sioe Dinbych a Fflint

Mynychodd y Fenter y sioe flynyddol a rhannwyd pabell gyda Gwasanaethau Teuluol Sir Ddinbych. Cafwyd sesiwn Stori a Chân gyda Siân Beca (Rownd a Rownd) a Siân Meirion a chyfle i hyrwyddo gwaith y Fenter. Cawsom ddiwrnod llwyddiannus dros ben.

Swyddog Plant a Phobl Ifanc Sir Dinbych

Dechreuais ar y swydd hon ym Mis Mehefin eleni, ac mae'r gwaith yn golygu mentora'r ardaloedd canlynol, De Rhyl, De Orllewin Rhyl, Gallt-melyd, Bodelwyddan a Dinbych Uchaf. Fel Swyddog dros y Fenter yn Sir Ddinbych, byddaf yn gweithio gyda plant a phobl ifanc rhwng 11mlwydd oed a 25 oed. Mi fydd y targedau y byddaf yn anelu i'w cyflawni yn cynnwys cynnal nifer o weithdai celf, cerdd a chwaraeon. Mae'n bwysig sicrhau bod y gweithdai yn cael eu darparu yn ddwyieithog, hyn oll ar gyfer sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg. Gwneir hyn mewn cydweithrediad a staff a gwirfoddolwyr mudiadau lleol drwy godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg. Cefais y fraint yn ddiweddar o weithio gyda dau fudiad ieuenctid, sef Cae Chwarae Rhyl a Phrosiect Dinbych Uchaf. Cefais gyfle i'w tywys o gwmpas maes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala. Cafodd yr unigolion llawer o hwyl a phrofiadau gwerthfawr wrth ymweld ar amryw stondinau diddorol megis Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, Y Babell Gelf a Dylunio, ar Babell Gwyddoniaeth a Thechnoleg a hefyd Pabell y Dysgwyr. Ymysg y profiadau newydd a chyffrous gafwyd oedd ymdrechu i godi wal sych a dadansoddi llofruddiaeth!

Anne Lloyd

Manylion Cysylltu â'r Fenter

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, syniadau neu'n dymuno gwneud gwaith gwirfoddol ar ran Menter Iaith Sir Ddinbych peidiwch ag oedi. Cysylltwch â:-

Ffôn- 01745 812822
www.metrauiaith-gogledd.com

Rheolwr - Gwawr Cordiner
gwawr@menteriaithdinbych.co.uk

Swyddog Datblygu - Gerallt Lyall
gerallt@menteriaithdinbych.co.uk

Swyddog Plant a Phobl Ifanc- Anne Lloyd
anne@menteriaithdinbych.co.uk

Swyddog Busness - Iorwen Jones
iorwen@menteriaithdinbych.co.uk

Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol gyda'n gilydd
Diolch yn fawr!!

Menter Iaith Sir Ddinbych
Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

Partneriaeth Plant a Phobol Ifanc Sir Ddinbych
Denbighshire Children & Young People's Partnership

Cyngor Sir Ddinbych
Denbighshire County Council

Bwrdd yr Iaith Gymraeg · Welsh Language Board

Supported by The National Lottery through the Heritage Lottery Fund
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri